**CALU – GWLAD - Awst 2008**

## Ansawdd a natur dymhorol – ffactorau pwysig i brisiau cnydau bresych

*Gan Kerrin Buckler - CALU*

I sicrhau'r elw gorau, mae'n rhaid i gynhyrchwyr adnabod eu marchnadoedd yn dda. Mae angen iddynt wybod beth mae prynwyr a defnyddwyr ei eisiau, a phryd maen nhw ei eisiau. Mae cadw llygad ar dueddiadau'r farchnad – yn dymhorol ac yn y tymor hir – yn fantais fawr o ran cynllunio gwaith cynhyrchu.

Yn achos llawer o lysiau, mae eu natur dymhorol yn bwysig o ran tueddiadau prisiau gydol y flwyddyn. Bydd modd sicrhau'r elw gorau wrth gyflenwi cnwd o'r radd flaenaf i'r farchnad pan fo prisiau'n uchel.

Cnydau bresych yw un o'r cnydau mwyaf poblogaidd ymhlith ffermwyr sy'n arallgyfeirio, ac mae'r Ganolfan Defnydd Tir Amgen (CALU) wedi cymharu'r patrymau prisiau tymhorol ar gyfer dau fath ohonynt yn arbennig: bresych Savoy a blodfresych.

Mae prisiau bresych Savoy yn amrywio'n fawr yn ystod y flwyddyn, gyda'r prisiau gorau i'w cael rhwng mis Mai a mis Medi. Mae'n anodd targedu'r farchnad hon gyda mathau mwy traddodiadol o fresych Savoy, ond gall cnydau o amrywiaethau newydd fod yn barod o fis Gorffennaf ymlaen.

Gallwch gael 10c y pen yn fwy wrth fanteisio ar fasnach mis Gorffennaf ac Awst. Er nad yw hyn yn swnio'n fawr ddim, gall fod yn werth tua £2,000 ar hectar cyfan. Gall cnwd o'r safon uchaf ym mis Awst fod yn werth dros ddwywaith cymaint â chnwd ail ddosbarth sy'n cael ei werthu ym mis Chwefror.

Nid yw'r tueddiadau prisiau tymhorol ar gyfer blodfresych mor amlwg â'r rhai ar gyfer Savoys, fwy na thebyg gan fod sawl math gwahanol ar gael sy'n barod i'w cynhaeafu gydol y flwyddyn. Rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill yw'r adeg waethaf i werthu blodfresych, gan fod y prisiau'n tueddu i fod ar eu hisaf bryd hynny.

Mae digon o wybodaeth ar gael gan y cyfanwerthwyr mwyaf a dyna oedd sail ein dadansoddiadau ni.

Er hynny, dylid cofio fod pob math o farchnadoedd ar gael i gynhyrchwyr. Er enghraifft, efallai y bydd rhai sy'n gwerthu trwy rywun arall yn y canol yn derbyn pris is na'r cyfartaledd, a rhai sy'n gwerthu wrth gât y fferm yn cael y pris uchaf.

Er mwyn cael y pris gorau posibl am gynnyrch, mae'n bwysig cyflwyno'r cynnyrch yn y ffordd orau bosibl. Mae angen pacio a chyflwyno cnydau'n ofalus – ni fydd cnwd o safon sydd wedi'u bacio'n flêr yn gwerthu am y pris gorau, waeth pa adeg o'r flwyddyn yw hi.